

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith /  
Climate Change, Environment and Infrastructure Committee  
Cymru Sero Net / Net Zero Wales  
NZ13  
Ymateb gan GwyrddNi / Evidence from GwyrddNi

**Tystiolaeth Ysgrifenedig ac Awgrymiadau ar gyfer Themâu Allweddol GwyrddNi:  
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith ar Gynllun Sero Net Cymru**



Mae GwyrddNi yn fudiad newid hinsawdd sydd wedi ei leoli yn y gymuned ac yn cael ei arwain gan y gymuned. Mae GwyrddNi yn cael ei ariannu gan Gronfa Gweithredu Hinsawdd y Loteri Genedlaethol, a'i arwain gan DEG, menter gymdeithasol yn Ngwynedd, mewn partneriaeth â phum sefydliad cymunedol arall; Partneriaeth Ogwen, Cyd Ynni, Siop Griffiths, Cwmni Bro, ac Ynni Llŷn.

Croesawir y ffaith fydd allyriadau 'defnydd' yn cael eu mesur yn ogystal ag allyriadau 'tiriogaethol. Ond yn ogystal â mewnfario deunyddiau mae Cymru a'i chymunedau yn allforio cyfoeth. Er enghraifft allforir y canran helaeth o'r cyfoeth a gynhrychir drwy greu trydan yn ardaloedd GwyrddNi. Drwy hyn mae Cymru'n allforio'r gallu gan rhai unigolion i fyw bywydau sy'n cyfrannu'n aruthrol at yr argyfwng hinsawdd (gweler <https://www.oxfam.org.uk/media/press-releases/carbon-emissions-of-richest-1-set-to-be-30-times-the-15c-limit-in-2030/> ) ac yn tansellio cyfraniad Cymru tuag at fyd sero net. Onid felly dylid mesur yr allyriadau carbon mae Cymru'n ei allforio yn ogystal â'i fewnfario? Byddai mesur hyn, yn ogystal ag allyriadau tiriogaethol a defnydd, yn galluogi Llywodraeth Cymru i lunio polisiau a mesurau byddai'n llawer iawn mwy effeithiol yn rheoli trosglwyddiad cymdeithasol deg i ddyfodol glanach, a hynny gan ddatblygu economïau cylchol a sylfaenol llawer iawn mwy ffyniannus o fewn cymunedau Cymru.

Nid yw'n ymddangos fod Dull Cymru ar y Cyd, neu o leiaf y ffordd caiff ei ddefnyddio yn y Cynllun Sero Net yn cydnabod cymunedau na'r sector cymunedol fel sector fel endidau penodol i gydweithio a nhw. Mae peidio â gwneud hyn yn ddiffygiol mewn dwy ffordd. a) Nid yw'n cydnabod y realiti fod dinasyddion Cymru yn rhoi trefn ar eu bywydau drwy gyfrwng eu cymunedau b) Bydd Llywodraeth Cymru'n colli cyfle byddai cydweithio gyda chymunedau fel endidau yn ei gynnig i sicrhau canlyniadau effeithiol ac mewn modd effeithlon dros ben.

Diau mai'r peth 'hawsaf' i Lywodraeth Cymru ei wneud fydd ceisio dull o'r brig i lawr, wedi'i arwain gan y farchnad er mwyn allanoli cyfrifoldebau (ac yn y pen draw buddion ac elw) i sefydliadau mawr, rhyngwladol. Efallai y bydd hyn yn hawsaf ond mae'n annhebygol o fod yn fwyaf effeithiol wrth annog y newidiadau sydd eu hangen ar bawb yng Nghymru. Rydym wedi bod yn gweld datganiadau gan Weinidogion fel "Rhaid inni ddod â chymunedau gyda ni" - gan awgrymu felly nad yw cymunedau'n rhan o'r "ni" ac yn anfodlon gwneud y newidiadau sydd eu hangen. Ac eto, mae'r Comisiwn Newid Hinsawdd yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i bobl fod wrth wraidd y newid i Carbon Zero. Mae ein profiadau wrth ddatblygu dulliau o ymateb i newid hinsawdd wedi eu gwreiddio yn y gymuned yn tynnu sylw at y ffaith bod newid yn fwy effeithiol ac yn cael ei groesawu wrth roi arweiniad i bobl leol. Mae buddion y dull hwn yn gorbwyso dull o'r brig i lawr wrth i ni weld mwy o hyder a grym gan ddinasyddion lleol sy'n barod i gymryd camau pellach. Mae hwn yn ddull annatod y mae angen ei ymgorffori ar draws pob gweithred. Er enghraifft, rhaid troi datganiadau fel "sicrhau bod ein polisïau a'n hymyriadau wedi'u cynllunio o amgylch y dinesydd" ar ei ben i "Rhaid sicrhau fod dinasyddion yn dylunio polisïau ac ymyriadau".

Mae hyn yn wir ar draws pob maes ond i ddefnyddio tri maes fel enghraifft:

Mae llwyddiannau prosiectau ynni cymunedol fel Ynni Ogwen ac Ynni Padarn Peris yn dangos y budd, mewn cymaint o wahanol ffyrdd, sy'n deillio o'r dull cymunedol o weithio. Wrth i gymunedau llywio proses a pherchnogi adnodd creu trydan mae'r dechnoleg creu trydan yn trawsnewid o fod yn offer creu trydan yn unig i offer sy'n creu a chynnal cymuned ffyniannus a'r holl fuddion sy'n ynghlwm a hynny.

Ar hyn o bryd mae proses pontio deg a ffyniant economaidd yn cael ei danseilio gan y ffordd gall grantiau coed eu dosbarthu i unigolion neu fusnesau sy'n gweithredu yn erbyn anghenion a dyheadau'r gymuned. Drwy ddefnyddio'r egwyddorion dylunio polisi a mesurau a amlinellir uchod, sy'n gosod trigolion fel aelodau o gymuned wrth y llyw, byddai modd trawsnewid y system dyrannu grantiau fel bod plannu coed yn cyfrannu at ffyniant yr economi leol ac yn destun balchder ymysg y gymuned.

Mae datrysiadau lleihau allyriadau trafniadaeth, sy'n ddibynnol ar wella is adeiledd a gwasanaethau lleol er mwyn lleihau'r angen am deithio, ar wead cymhlyg o ddulliau teithio actif a thrafnidiaeth sero carbon neu garbon isel iawn, ac ar drigolion yn defnyddio'r isadeiledd, gwasanaethau a dulliau teithiau hyn yn mynd i amrywio o un gymuned i'r llall. Byddai gosod aelodau o'r gymuned hwnnw wrth y llyw wrth archwilio, canfod a datblygu datrysiadau yn, mewn modd effeithlon iawn, sicrhau fod y system teithio honno yn ymateb i anghenion teithio'r gymuned, yn ei holl gymhlethdod, ac, fel canlyniad ac yn hollbwysig, yn golygu byddai aelodau'r gymuned yn ei ddefnyddio.

Yr hyn yr ydym yn ei bwysleisio, ar lefel ymarferol, ydy'r angen i:

- Adnabod y cyfoeth a'r allyriadau sy'n cael eu allforio o'n cymunedau,
- Adnabod cymunedau fel endidau i gydweithio a nhw ar y daith i sero net,

- Cefnogi cymunedau i ddatblygu Cynulliadau Hinsawdd Leol dros bob cwr o Gymru er mwyn creu gofod a chyfle i gymunedau archwilio datrysiadau i'r argyfwng hinsawdd,
- Parchu arbenigedd cymunedau yn y maes hwn,
- Cymunedau fod yn arwain ar ddatblygu cynlluniau datgarboneiddio lleol
- Datblygu cyllid her newydd i ddatblygu dulliau arloesol i ddatgarboneiddio sydd wedi eu harwain gan y gymuned.

Croesawn unrhyw adborth neu gwestiynau ynglŷn â'r dystiolaeth ysgrifenedig hwn.